



CYNLLUN A CHYLLIDEB

ENNYN DIDDORDEB

DEFNYDDWYR

2020

Cyhoeddwyd 19 Rhagfyr 2019

smartenergyGB.org/cy

Ynni Clyfar GB
1 Alfred Mews, Llundain
W1T 7AA

Swyddfa'r Alban
110 George Street, Caeredin
EH2 4LH

Swyddfa Cymru
Tŷ Sophia
28 Heol y Gadeirlan, Caerdydd
CF11 9LJ

Enw masnachu'r "Corff Cyfathrebu Mesuryddion Clyfar Cyfyngedig" yw "Ynni Clyfar GB.

Dylid deall bod unrhyw gyfeiriadau yn y ddogfen hon at "Ynni Clyfar GB" neu "y cwmni" yn cyfeirio at y "Corff Cyfathrebu Mesuryddion Clyfar Cyfyngedig". Dylid tybio bod unrhyw gyfeiriadau yn Amodau Safonol y Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan at y "Corff Cyflwyno Canolog" yn cyfeirio at "Ynni Clyfar GB" hefyd.

Cynnwys

1. Llywodraethu	4
1.1 Bwrdd Ynni Clyfar GB	
1.2 Fforwm domestig y Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP)	
1.3 Fforwm annomestig y Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP)	
2. Nodau ar gyfer 2020	6
2.1 Nodau ar gyfer yr ymgyrch ddomestig yn 2020	
2.2 Nodau ar gyfer yr ymgyrch annomestig yn 2020	
3. Goblygiadau ar gyfer gweithgareddau'r ymgyrch yn 2020	8
3.1 Yr ymgyrch ddomestig yn 2020	
3.2 Yr ymgyrch annomestig yn 2020	
4. Cyllideb 2020	14
4.1 Y gyllideb ddomestig	
4.2 Y gyllideb annomestig	

1. Llywodraethu

Mae bwrdd Ynni Clyfar GB yn falch o gyhoeddi ei gynllun a chyllideb ennyn diddordeb defnyddwyr ar gyfer 2020 sydd wedi ei gymeradwyo gan ei aelodaeth cyflenwyr ynni.

1.1 Bwrdd Ynni Clyfar GB

Mae strwythur bwrdd Ynni Clyfar GB wedi'i ddisgrifio yn yr Amodau Safonol Cyflenwi Nwy a Thrydan, y Trwyddedau Dosbarthu Trydan a Chludo Nwy (sef "y trwyddedau cyflenwyr"). Dyma aelodaeth y bwrdd ar 6 Rhagfyr 2019:

Cadeirydd Annibynnol:

- Mark Lund OBE

Wedi'u hethol gan, a chan gynrychioli, Cyflenwyr Perthnasol:

- Chris Adams
- Jill Dougan
- Richard Hughes
- Belinda Moore
- Ed Tarelli

Wedi'u henwebu gan Gyngor ar Bopeth:

- Dhara Vyas
- James Taylor

Wedi'u hethol gan, a chan gynrychioli, Cyflenwyr Domestig Bach:

- Steven Day
- Andrew Coleman

Wedi'u hethol gan, a chan gynrychioli, Cyflenwyr Annomestig:

- Pamela Conway
- Steve Rimell

Yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr ynni:

- Penny Shepherd
- Chris MacLeod

1.2 Fforwm domestig y Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP)

Mae fforwm domestig y FfRhP o gyflenwyr perthnasol yn gyfrifol am bennu a chynnal y FfRhP o fetrigau a thargedau allweddol y mae gan Ynni Clyfar GB y dasg o gyflwyno yn eu herbyn ar gyfer ein hymgyrch ddomestig.

Gweinyddir fforwm domestig y FfRhP gan Energy UK ac fe'i cadeirir yn annibynnol gan Maxine Frerk. Y cyflenwyr perthnasol sy'n aelodau cyfredol fforwm domestig y FfRhP ar hyn o bryd yw:

- Nwy Prydain
- Bulb
- Co-operative Energy
- EDF Energy
- E.ON
- Shell Energy
- n.power
- Octopus
- Ovo Energy
- Scottish Power
- SSE
- Utility Warehouse
- Utilita

Gwahoddir Ofgem a BEIS i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd fforwm domestig y FfRhP i arsylwi trafodion.

Mae bwrdd Ynni Clyfar GB yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn goruchwylio ymgyrch a gweithrediadau Ynni Clyfar GB, a bod Ynni Clyfar GB yn cyflwyno'n effeithlon ac yn effeithiol yn erbyn ei amcanion. Gan hynny, mae wedi adolygu'r gyllideb gysylltiedig i sicrhau ei fod yn briodol o ran cwrdd â'r her a bennwyd gan fforwm domestig y FfRhP trwy'r targedau ar gyfer 2020.

Mae'r Bwrdd wedi cydweithio'n agos â fforwm domestig y FfRhP yn ystod y cyfnod cynllunio. Bu Maxine Frerk yn fynychai rheolaidd cyfarfodydd bwrdd Ynni Clyfar GB.

1.3 Fforwm annomestig y Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP)

Mae fforwm annomestig y FfRhP o gyflenwyr perthnasol yn gyfrifol am bennu a chynnal y FfRhP o fetrigau a thargedau allweddol y mae gan Ynni Clyfar GB y dasg o gyflwyno yn eu herbyn ar gyfer ein hymgyrch annomestig.

Gweinyddir fforwm annomestig y FfRhP gan Energy UK ac fe'i cadeirir yn annibynnol gan Maxine Frerk. Y cyflenwyr annomestig mawr sy'n aelodau fforwm annomestig y FfRhP yw:

- Nwy Prydain
- EDF Energy
- EON
- Npower
- Opus
- SSE
- Scottish Power
- Cyfanswm

Gwahoddir Ofgem a BEIS i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd fforwm annomestig y FfRhP i arsylwi trafodion.

Mae bwrdd Ynni Clyfar GB yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn goruchwylio ymgyrch a gweithrediadau Ynni Clyfar GB, a bod Ynni Clyfar GB yn cyflwyno'n effeithlon ac yn effeithiol yn erbyn ei amcanion. Gan hynny, mae wedi adolygu'r cynllun gweithgareddau a chyllideb gysylltiedig i sicrhau ei fod yn briodol o ran cwrdd â'r her a bennwyd gan fforwm annomestig y FfRhP trwy'r nodau ar gyfer 2020.

Mae'r Bwrdd wedi cydweithio'n agos â fforwm annomestig y FfRhP yn ystod y cyfnod cynllunio. Bu Maxine Frerk yn fynychai rheolaidd cyfarfodydd bwrdd Ynni Clyfar GB.

2. Nodau ar gyfer 2020

2.1 Nodau ar gyfer yr ymgyrch ddomestig yn 2020

Ar 16 Hydref 2019, ystyriodd cyflenwyr ynni fforwm domestig y FfRhP lwybrau gwahanol posib ar gyfer cynllun a chyllideb ddomestig 2020.

Yn y cyfarfod hwnnw, ac mewn cyfarfodydd ysgrifenedig dilynol, mynegwyd y canlynol i Ynni Clyfar GB:

- o ystyried estyniadau mewn cymhwyster, nid yw cyflenwyr eisiau i Ynni Clyfar GB sbarduno trawsnewid yn 2020 ond maent yn chwilio am gefnogaeth wrth newid agweddau, yn enwedig ymysg gwrthodwyr.
 - gan adlewyrchu rhwymedigaethau eu trwyddedau, maent eisiau i Ynni Clyfar GB gefnogi cwsmeriaid sy'n agored i niwed a chael rôl wrth annog newid ymddygiad.
 - maent eisiau cefnogaeth gan Ynni Clyfar GB yn y tasgau hynny sy'n cael eu cyflwyno'n fwy cost-effeithiol ar lefel genedlaethol a/neu pan fydd llais annibynnol yn bwysig.
 - maent eisiau cefnogaeth gan Ynni Clyfar GB ar gyfer cynllun peilot lleol Derby (fel a gyfarwyddir gan weithgor y peilot lleol).
- Mae fforwm domestig y FfRhP wedi hysbysu Ynni Clyfar GB y bydd yn barnu perfformiad yr ymgyrch ddomestig yn 2020 trwy archwilio'r meysydd a ganlyn:
- yn yr un modd ag yn y gorffennol bydd **metrigau cysylltiadau cyhoeddus** yn cael eu tracio. Mae perfformiad yn y maes hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar ba storïau'r cyfryngau a ddaw i'r amlwg ond yn fras mae fforwm domestig y FfRhP eisiau i Ynni Clyfar GB gynnal perfformiad cyfredol neu ei wella;
 - bydd cynnydd ar **bartneriaethau a chyfryngau cymdeithasol/eiriolaeth** yn cael ei farnu trwy ddiweddariadau rheolaidd ar effeithiolrwydd mentrau unigol;
 - caiff llwyddiant y peilot **ardal leol** ei farnu'n unol â meini prawf sydd i'w datblygu gan y gweithgor;
 - bydd **metrigau defnydd** yn cael eu tracio fel yn 2019 a'u cefnogi fel y bo angen gan ymchwil fanylach. Yn fras, mae fforwm domestig y FfRhP eisiau i Ynni Clyfar GB gynnal perfformiad cyfredol nei ei wella ond gan gydnabod y bydd newidiadau yn y gronfa o berchnogion mesuryddion clyfar yn dylanwadu ar hyn, yn yr un modd ag unrhyw weithgareddau cyflenwyr a anelir at helpu cwsmeriaid i reoli eu defnydd;
 - bydd **gofyn am/derbyn** yn parhau i gael eu tracio yn yr un modd ag yn y gorffennol ond heb bennu unrhyw darged;
 - mae gan gyflenwyr ddiddordeb mewn tracio gofyn am/derbyn ar gyfer **cwsmeriaid mesuryddion rhagdalu** a gweld bod y lefel honno'n cael ei chynnal;
 - bydd gofyn am/derbyn yn cael eu tracio hefyd yn yr **ystod o grwpiau demograffiaid-cymdeithasol** a ystyriwyd yn flaenorol er mwyn adnabod unrhyw grwpiau sy'n tanfynegeio'n sylweddol (pan gymerir lefelau gosodiadau presennol i ystyriaeth etc) a ble y mae angen targedu gweithredu;

- bydd **lefelau gwrthod** yn cael eu tracio (gan gynnwys gwrthodwyr caled). Byddai'r cyflenwyr yn awyddus iawn i Ynni Clyfar GB helpu wrth daclo gwrthodwyr caled ond yn cydnabod efallai na fydd hyn yn gost-effeithiol yn y cyfnod hwn. Mae'r cyflenwyr eisiau gweld gostyngiad yn nifer y gwrthodwyr (ar ôl ystyried y nifer o wrthodwyr sydd, serch hynny, yn cael gosodiad).
- o ran **gwerth am arian** bydd cyflenwyr yn anelu at gydweithio ag Ynni Clyfar GB ar dulliau dadansoddi econometrig i'w defnyddio yn 2020 i adeiladu dealltwriaeth well ar y cyd o weithgareddau Ynni Clyfar GB wrth gyflwyno'r canlyniadau a ddymunir. Mae hyn yn adlewyrchu arweiniad NAO ac arfer gorau'r llywodraeth h.y. canolbwyntio ar gost cyflwyno'r deilliannau (yn hytrach na dim ond cost y mewnbynnau fel gwariant ar y cyfryngau). Mae hyn hefyd yn adlewyrchu gofyniad y drwydded i'r FfRHP gynnwys darpariaethau i asesu "effeithiolrwydd y camau a gymerir gan Ynni Clyfar GB at ddiben cyflawni ei amcanion".

2.2 Nodau ar gyfer yr ymgyrch annomestig yn 2020

Ar 16 Hydref 2019, ystyriodd cyflenwyr ynni fforwm annomestig y FfRHP yr argymhellion a gynhrychwyd yn sgil sesiwn weithdy fu'n cynnwys cyflenwyr ynni, Ynni Clyfar GB a BEIS ar nodau posib, ac amrywiaeth y gweithgareddau yn, yr ymgyrch annomestig yn 2020.

Yn sgil y cyfarfod hwnnw, ysgrifennodd Cadeirydd fforwm annomestig y FfRHP at Ynni Clyfar GB i gadarnhau y bu consensws ymysg y cyflenwyr yn fforwm annomestig y FfRHP ar y nodau a chyllideb briodol ar gyfer ymgyrch Ynni Clyfar GB yn 2020.

Ar yr un pryd, cadarnhaodd Cadeirydd fforwm annomestig y FfRHP i Ynni Clyfar GB y bydd y cyflenwyr, o ran monitro perfformiad yn 2020, eisiau tracio:


- lefelau ymwybyddiaeth y gobeithiant y byddant yn uwch na lefelau cyfredol bod mesuryddion clyfar ar gael i fusnesau
- lefelau gofyn am/derbyn (ond heb bennu targed)

Fe gyfathrebodd hi hefyd, o ystyried y bydd 2020 yn flwyddyn gyntaf, y bydd yn bwysig o ran dysgu am y negeseuon a sianelau mwyaf effeithiol; ac felly byddai cyflenwyr eisiau hefyd i Ynni Clyfar GB adnabod dulliau asesu ymgyrhaeddiad a, lle bo'n bosib, effeithiolrwydd ei ymgyrchoedd - gan gydnabod na fydd modelu econometrig yn ddichonol ar gyfer gweithgarwch ar y raddfa hon.

3. Goblygiadau ar gyfer gweithgareddau'r ymgyrch yn 2020

3.1 Yr ymgyrch ddomestig yn 2020

Cyd-destun 2020 yw graddfa uchelgeisiol o ran yr ymgyrch*



*Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli nifer yr oedolion heb osodiad clyfar sydd wedi cael gosodiadau domestig mewn blynyddoedd blaenorol/nifer yr oedolion heb osodiad clyfar y mae angen iddynt dderbyn gosodiadau yn 2020 er mwyn i gyflenwyr gyrraedd eu targedau cyflwyno

Wrth gyrraedd safbwynt ar y cyfeiriad a ddymunir ar gyfer rôl ac ymgyrch Ynni Clyfar GB yn 2020, ystyriodd cyflenwyr fforwm domestig y FfRhP, bwrdd a thîm Ynni Clyfar GB nifer o fewnbynnau a safbwyntiau.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- canfyddiadau adolygiad Bright Blue o fodlu econometrig Annalect
- dadansoddiad diweddaraf Frontier Economics o'r llyf cwsmeriaid a gosodiadau domestig a ddymunir yn 2020 ynghyd â chymarebau trwy'r llyf

- barn ddiweddaraf gweithgor cynllun peilot lleol Derby ar ei gynlluniau a'r rôl y bydd eisiau i Ynni Clyfar GB ei chwarae wrth gefnogi'r cynllun peilot hwnnw
- uchelgais cyffredinol a fynegwyd gan gyflenwyr i ostwng lefel y gwariant o'i gymharu â lefelau 2019 mewn termau real

Gan ddilyn trafodaethau gyda chyflenwyr ynni trwy fforwm domestig y FfRhP, cyrhaeddwyd consensws ar y goblygiadau canlynol o ran meysydd gweithgarwch yn ymgyrch ddomestig 2020.

MAES GWEITHGARWCH	GOBLYGIADAU AR GYFER YR YMGRYCH DDOMESTIG YN 2020
<p>Cysylltiadau cyhoeddus defnyddwyr, partneriaethau â'r cyfryngau, digidol a chymdeithasol</p>	<p>Dylid parhau ar yr un raddfa/lefel ddatblygedig â 2019.</p> <p>Cynnydd i bump ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus Defnyddwyr, wedi'u cyflwyno ar bwyntiau penodol o'r flwyddyn sy'n gweddu i'n hymgyrch graidd. Pob un wedi'i chyflwyno gan arbenigwyr credadwy, gan archwilio manteision macro gwahanol mesuryddion clyfar, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, cynladwyedd, buddsoddi cenedlaethol ac arloesedd.</p> <p>Parhau i weithio mewn partneriaeth â darparwyr newyddion (yn y wasg ac ar-lein) i ddefnyddio cynnwys y telir amdano i newid agweddau (yn benodol ymysg gwrthodwyr goddefol) a dylanwadu ar ymddygiadau.</p> <p>Cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol, sy'n mynd y tu hwnt i'r model hysbysebion wedi'u trawsnewid a rheolaeth gymunedol traddodiadol. Bydd y gyllideb a neilltuir yn cael ei defnyddio i greu cynnwys wedi'i bersonoli a'i dargedu er mwyn ysgogi newid agweddau a chynyddu eiriolaeth.</p> <p>Lansio rhaglen dylanwadwyr eirioli, ond nid yn y fformat llysgennad enwog safonol. Bydd y rhaglen yn cynnwys arbenigwyr a lleisiau awdurdodol, dylanwadwyr graddfa fach, cynnyrch mewn da, ac ymchwilio i bartneriaethau tymor hir.</p> <p>Byddwn yn sefydlu modelau "swyddfa wasg" newydd i ddenu sylw yn ystod cyfnodau tawel yr ymgyrch, gan gynnwys cynyddu cysylltiadau cyhoeddus arwain meddwl, ynghyd â chydweithio â thrawsryddion newyddion o bryd i'w gilydd fel ffordd o gyrchu tirwedd gyfryngau heriol a gorlawn.</p> <p>Dylid ehangu gweithgarwch cymdeithasol a dylanwadwyr sy'n ffocysu ar agweddau ac eirioli, cefnogaeth ragdalu, cefnogaeth cysylltiadau cyhoeddus, cefnogi defnydd.</p>
<p>Partneriaethau marchnata</p>	<p>Dylid ffocysu partneriaid brand (e.e. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a chymunedol (e.e. elusennau lleol) ar wrthodwyr goddefol sy'n anodd eu darbwyllo a'r rhai nad ydynt yn ymwybodol ar hyn o bryd - gyda'r raddfa gyffredinol yn parhau ar lefelau uwch y flwyddyn ariannol 2019.</p>
<p>Cyfryngau y telir amdanynt</p>	<p>Dylid ffocysu ar weithgareddau ffurfio agweddau ar lefel optimaidd i reoli gwrthod ac adeiladu agweddau cadarnhaol (ar raddfa is yn gyffredinol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol).</p> <p>Isafswm ymrwymiad o ran prynu cyfryngau cyn y rownd nesaf o ddadansoddi econometrig.</p> <p>Caiiff dadansoddi econometrig ei ddefnyddio fel sail i gynllunio gwerth gorau a'r cymysgedd sianelau mwyaf effeithiol (o weithgarwch sianelau y telir amdanynt ac a enillir). Mae gwaith ar y gweill i wella modelu econometrig ymhellach yn 2020:</p> <ul style="list-style-type: none"> ■ gofynnwyd am ddata gan gyflenwyr i alluogi i foddelu gymryd gweithgareddau uniongyrchol cyflenwyr a chyfnod amser hwy i ystyriaeth ■ bydd Bright Blue yn archwilio'r set nesaf o foddelu econometrig Annalect i roi sicrwydd o ran cywirdeb i Ynni Clyfar GB a'r fforwm FfRHP ■ caiff y rownd nesaf o foddelu econometrig ei chynhyrchu yn gynnar yn 2020, i gefnogi unrhyw amrywiad i gynllun/gyllideb 2020 Ynni Clyfar GB o fewn y flwyddyn <p>Gan hynny, mae'r gyllideb wedi cymryd cyfran is (15.1%) o'r gyllideb gyfryngau yn y chwarter cyntaf, ac o ran egwyddor ni fydd Ynni Clyfar GB yn ymrwmo i brynu cyfryngau ar sail ymlaen llaw am gyfnod sy'n hwy na 6-8 wythnos (gan ddibynnu ar y sianel).</p> <p>Cynllunir y gyllideb hefyd ar sail disgwiliad o gyflawni gwerth "A, ardderchog" wrth i PHD gyd-drafod pris unedol cyfryngau a phrynu (yn seiliedig ar archwiliad annibynnol MediaSense o werth wrth bennu'r radd "A, ardderchog").</p>

MAES GWEITHGARWCH	GOBLYGIADAU AR GYFER YR YMGRCH DDOMESTIG YN 2020
Cynhyrchu	Dylai fod yn seiliedig ar ddatblygu creadigol ar draws llwyfannau yn unol â gofynion y gweithgaredd uchod.
Mewnwelediad a dadansoddeg	Dylid gostwng hyn i'r isafswm sydd ei angen i gyfeirio gwneud penderfyniadau a dangos effeithiolrwydd. Dylid gostwng econometreg o bedair i ddwy don y flwyddyn. Yn flaenorol rydym wedi ymchwilio i gymaryddion allanol defnyddiol gan COI a PHE sy'n rhoi dangosyddion o 5.6% a 5% o drosiant i ni yn ôl eu trefn. Ar hyn o bryd rydym ar 5% o drosiant yn ein cyllideb ddomestig ar gyfer 2020.
Newyddion	Bydd angen swyddfa wasg ar gyfer rheolaeth newyddion ymatebol yn 2020 yn unol â lefelau 2019.
Materion cyhoeddus a pholisi	Rydym yn cynllunio gostyngiad yn y maes hwn yn 2020, i'r isafswm y credwn ei fod yn ddichonol er mwyn adlewyrchu ein rhwymedigaethau parhaus (e.e. gwasanaethu ac ymateb yn briodol i'r Seneddau a Seneddwyr o ran eu ceisiadau am wybodaeth ynglŷn â'n gweithgareddau), a rheoli ein swyddogaethau gohebiaeth gyhoeddus.
Ymgyrch y cynllun peilot lleol (Derby)	Dylai gweithgarwch uniongyrchol yr ymgyrch, rheolaeth brosiect a gwerthuso adlewyrchu penderfyniadau'r gweithgor sy'n rhedeg y prosiect hwnnw (gan gynnwys unrhyw gostau pasio trwodd y maent yn gofyn amdanynt sy'n cael eu rheoli trwy Ynni Clyfar GB).

3.2 Yr ymgyrch annomestig yn 2020

Cynhaliwyd gweithdy fu'n cynnwys cyflenwyr annomestig mawr, cynrychiolwyr BEIS ac Ynni Clyfar GB ar 10 Hydref 2019 i drafod yr heriau y mae cyflenwyr yn eu hwynebu wrth gyflwyno mesuryddion clyfar i'w cwsmeriaid microfusnes a'r datrysiadau posib (gan ganolbwyntio ar y datrysiadau hynny y gallai ymgyrch ennyn diddordeb genedlaethol gefnogi microfusnesau sydd ag adeiladau dynodedig â nhw yn 2020.)

Hoffem ddiolch i bawb fu'n bresennol ac a gyfrannodd at y drafodaeth. Yn bresennol oedd:

- Anca Staples (Opus)
- Claire Youngman (BG)
- Maxine Frerk (fforwm FfRhP)
- Stephanie Gale (BEIS)
- Janina Ketterer (BEIS)
- Christina Tudorascu (SSE)
- Rich Tunbridge (EDF)
- Jo Clay (EDF)
- Chris Brown (Haven)
- John Garlick (EON)
- Edmund Frondiguon (EUK)
- Alistair Gibbons (SEGB)
- Claire Baines (SEGB)
- Claire Howes (SEGB)

Yn bennaf, consensws y grŵp oedd y deuir ar draws y mwyafrif o'r heriau cyn i apwyntiad gael ei wneud; yn gyntaf, wrth fedru cysylltu â'r cwsmer yn y lle cyntaf, ac yna sicrhau apwyntiad. Ar ôl i apwyntiad gael ei wneud, ystyriwyd yn fras bod y gyfradd tynnu allan yn debyg i gwsmeriaid domestig. Amlygwyd sefyllfaoedd mwy cymhleth gyda mesuryddion na ellir eu datrys ar y safle eto, (megis 3 Gwedd), fel un maes nodedig o wahaniaeth sy'n dylanwadu ar gyfraddau rhoi'r gorau i osodiadau o'i gymharu â'r farchnad ddomestig.

Disgrifir yr heriau a nodwyd amlaf gan y grŵp ar y dudalen nesaf. Roedd yr holl heriau a restrwyd, ac eithrio'r un olaf un, yn heriau y teimlodd y grŵp y gallai ymgyrch genedlaethol Ynni Clyfar GB o bosib chwarae rôl wrth ymdrin â nhw, naill ai'n annibynnol neu ar y cyd gyda chyflenwyr eraill.

CATEGORI	HERIAU
Y berthynas rhwng y cwsmer a'r cyflenwr	<ul style="list-style-type: none"> ■ Mewn llawer o achosion ni cheir cyfathrebu uniongyrchol â'r cwsmer gan y rheolir y berthynas gan froceriaid/TPI naill ai'n gyfan gwbl neu ar adegau a fyddai'n amserol i drafod mesuryddion (h.y. yn y cam caffael) ■ mae galwadau ffôn i'r tu allan yn aneffeithlon gan yn aml nad ydynt yn siarad â'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad (e.e. cyflogai yn hytrach na deiliad y cyfrif) ■ aneglurder o ran landlordiaid yn erbyn y caniatâd sydd ei angen. Adroddodd rhai cyflenwyr fod hyn yn ddilys, teimlodd rhai eraill y cai ei ddefnyddio fel gwyriad i osgoi trafodaeth ■ mae diffyg ffydd mewn cyflenwyr ynni, gan arwain at ddrwgdybiaeth ynglŷn â chymhellion cyflenwyr wrth i fesurydd clyfar gael ei gynnig am ddim, neu mewn rhai achosion pan dreialwyd ysgogiadau
Mae blaenoriaethau cwsmeriaid yn golygu cyfraddau ymateb is	<ul style="list-style-type: none"> ■ mae ynni'n flaenoriaeth isel ar gyfer cwsmeriaid <ul style="list-style-type: none"> ■ maent yn ffocysu ar dyfu eu busnesau yn hytrach na thorri costau ■ maent yn canolbwyntio ar oroesi ac addasu eu busnesau yng ngoleuni Brexit, GDPR etc. ■ maent yn derbyn amrywiaeth o gyfathrebiadau gwerthu etc ac felly yn wrthwynebol i gynigion ■ ymwybyddiaeth isel o fesuryddion clyfar
Nid yw'r manteision unigol ar lefel y busnes yn gwrthbwyso canfyddiadau am ymdrech/gostau	<ul style="list-style-type: none"> ■ bydd y cyflenwad yn cael ei ddiffodd am gyfnod ■ teimlir bod biliau cywir yn ffactor hylendid yn hytrach na buddiant ■ diffyg cred yn y potensial am arbed arian ■ pryderon ynghylch preifatrwydd data (cyswllt â drwgdybiaethau o gymhelliannau cyflenwyr dros gynnig gosodiad)
Diffyg ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cenedlaethol a manteision ehangach yr ymgyrch	<ul style="list-style-type: none"> ■ methu â deall/teimlo bod gan eu busnes ran bwysig i'w chwarae mewn buddiannau eu cymuned a'r angen cenedlaethol ehangach
Effaith cyfryngau negyddol sy'n cynyddu pryderon	<ul style="list-style-type: none"> ■ newid cyflenwyr a phryderon SMETS1 ■ credu mewn 'mythau' e.e. ynghylch diogeledd data, iechyd a diogelwch, preifatrwydd
Sefyllfaoedd cymhleth gyda mesuryddion	<ul style="list-style-type: none"> ■ e.e. effaith 3 Gwedd yn y camau cymhwyster a gosod

Rolau ar gyfer ymgyrch annomestig Ynni Clyfar GB yn 2020

Bu i'r grŵp adnabod y rolau a ganlyn sydd o werth i ymgyrch annomestig Ynni Clyfar GB yn 2020.

MAES	DATRYSIAD POSIB
<p>Datblygu negeseuon cyffredin cymhellol (gan nodi y bydd profi unrhyw negeseuon yn bwysig)</p>	<ul style="list-style-type: none"> ■ gallai defnyddio negeseuon ar y cyd ynglŷn â buddiannau cenedlaethol dorri trwodd e.e. grid clyfar, Prydain glyfrach. ■ defnyddio'r cyfraniad cenedlaethol ar ffurf cyfraniad y busnes ei hun h.y. mae gan yr holl fusnesau rôl i'w chwarae ■ ar draws sianelau ATL, ystyried negeseuon sy'n ymdrin â chartrefi a busnesau. ■ ystyried pwysleisio mai dim ond uwchraddiad isadeiledd yw hwn, sy'n gosod sylfeini arloesedd y dyfodol a fydd yn gwella eu busnes. ■ hyrwyddo i TPI fel cyfle gwahaniaethu busnes o ran sut maent yn gwasanaethu eu cleientiaid ■ Cwestiynau cyffredin i roi sicrwydd i gwsmeriaid e.e. colli cyflenwad am gyfnod, a "chwalu mythau"
<p>Targedu cynulleidfa sy'n creu rhwystr posib</p>	<ul style="list-style-type: none"> ■ bydd adnabod landlordiaid a chyfathrebu â nhw'n bwysig ■ dylanwadu ar TPI a chyfryngwyr eraill, a chydweithio â nhw ar ddarparu asedau perthnasol ac ysgogol
<p>Dilysu a normaleiddio</p>	<ul style="list-style-type: none"> ■ dangos mai'r dewis "normal" yw derbyn mesurydd clyfar, darparu astudiaethau achos a ysgrifennir mewn ffordd gymhellol - i'w defnyddio hefyd gan gyflenwyr neu TPI yn eu cyfathrebiadau uniongyrchol â chwsmeriaid. ■ gwaith gyda grwpiau cynrychioli i greu cynllun brandio/bathodynnau achredu y gall busnesau sydd wedi "mynd yn glyfar" eu gwisgo'n falch ■ cysylltu â phrosiect arloesedd BEIS o ran y potensial i ymgorffori mentrau arloesedd
<p>Buddiannau o'r ymgyrch ddomestig</p>	<ul style="list-style-type: none"> ■ adlewyrchu busnes yn yr ymgyrch ddomestig (petai'r ymgyrch ddomestig yn parhau i gynhyrchu galw ar raddfa fawr yn 2020)

Nododd y grŵp y gallai'r sianelau a ganlyn fod o fudd i ymgyrch annomestig 2020 Ynni Clyfar GB:

- ffurfio partneriaethau â grwpiau cynrychioli a defnyddio eu sianelau cyfathrebu â'u haelodaeth eu hunain
- gweithio gyda TPI fel eu bod yn defnyddio eu sianelau cyfathrebu â'r busnesau y maent yn cydweithio â nhw
- cyfryngau a enillir (cysylltiadau cyhoeddus ymatebol a rhagweithiol)
- cyfryngau a brynir (gyda ffocws ar y cyfryngau masnach)
- hysbysebu ar y radio

4. Cyllideb 2020

4.1 Y gyllideb ddomestig

Mae bwrdd Ynni Clyfar GB yn cydnabod pwysigrwydd gwerth am arian ar draws holl weithrediadau'r cwmni. I sicrhau gwneud ein gorau i fwyafu effeithiolrwydd ein gwariant ac isafu gwastraff, rydym yn cymhwyso model gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) fel sail i egwyddorion cynllunio cyllidebu.

Am fwy o wybodaeth, mae NAO wedi cyhoeddi manylion ei model gwerth am arian ar ei gwefan.

Mae'r cyfanswm cyllideb ar gyfer 2020 o £36.7m wedi'i thorri i lawr i'r gyllideb gyfalaf ddomestig o £28.8m a'r cyfraniad domestig i gostau gweithredu sefydlog o £7.9m.

£k	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	CYFANSWM 2020	CYMHARYDD 2019*
CYLLID CYFALAF						
ENNYN DIDDORDEB DEFNYDDWYR DOMESTIG						
Cysylltiadau cyhoeddus defnyddwyr rhagweithiol	425	743	644	646	2,458	2,559
Partneriaethau cyfryngau	500	915	200	790	2,405	1,640
Digidol a chymdeithasol	480	427	427	427	1,761	1,444
Cynhyrchu	1,652	512	507	329	3,000	3,970
Prynu cyfryngau	1,990	5,375	3,066	2,762	13,193	15,948
Partneriaethau marchnata	893	760	396	438	2,487	2,336
Mewnwelediad a dadansoddeg	564	518	327	491	1,900	2,370
Taith ffôn a chwsmer	-	-	-	-	-	517
Cyfanswm ennyn diddordeb defnyddwyr domestig	6,504	9,250	5,567	5,883	27,204	30,774

*pan fo'n berthnasol

£k	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	CYFANSWM 2020	CYMHARYDD 2019*
MATERION CORFFORAETHOL						
Newyddion	98	98	98	98	392	345
Polisi	4	54	4	4	66	97
Materion Cyhoeddus	44	59	44	44	191	338
Treuliau teithio a byw Materion Corfforaethol	-	-	-	-	-	41
Cyfanswm Materion Corfforaethol	146	211	146	146	649	821
Cyfanswm cyllid cyfalaf (cyn eitem eithriadol)	6,650	9,461	5,713	6,029	27,853	31,595
Eitem eithriadol wedi'i chlustnodi						
Cynllun Peilot Lleol	900	-	-	-	900	500
CYFANSWM CYLLID CYFALAF	7,550	9,461	5,713	6,029	28,753	32,095

*pan fo'n berthnasol

£k	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	CYFANSWM 2020	CYMHARYDD 2019*
CYFRANIAD DOMESTIG AT GOSTAU GWEITHREDU SEFYDLOG						
Costau staff	1,335	1,336	1,336	1,336	5,343	5,577
Hyfforddi a datblygu	70	71	71	71	283	299
Costau rhedeg adeiladau a swyddfeydd	648	330	324	245	1,547	1,446
Treuliau teithio a byw	46	46	46	47	185	135
TGCh	183	68	48	56	355	506
Archwilio a chyfrifyddu ariannol	20	20	20	20	80	80
Yswiriant, cyfreithiol ac ymgynghoriaeth	86	33	31	35	185	188
Dibrisio	53	49	48	35	185	508
Darpariaeth ddrwgddyled	90	-	-	-	90	90
Treth	2	2	2	2	8	8
Llai dyraniad i'r gyllideb annomestig	(76)	(77)	(76)	(77)	(306)	-
Llai llog banc	(10)	(11)	(11)	(11)	(43)	(43)
CYFANSWM COSTAU GWEITHREDU DOMESTIG SEFYDLOG	2,447	1,867	1,839	1,759	7,912	8,794
CYFANSWM CYLLIDEB DDOMESTIG 2020	9,997	11,328	7,552	7,788	36,665	40,889

*pan fo'n berthnasol

Nodiadau i'r gyllideb ddomestig:

Ennyn Diddordeb Defnyddwyr

- i. Cysylltiadau Cyhoeddus Defnyddwyr Rhagweithiol:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu ymgyrchoedd cysylltiadau cyhoeddus defnyddwyr rhagweithiol, gan gynnwys cefnogaeth a ffioedd asiantaeth, costau doniau ac eirioli, ymchwil at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus rhagweithiol, ysgrifennu copi a darluniadau, cynhyrchu asedau ffotograffiaeth a chlyweled/sain.
- ii. Partneriaethau Cyfryngau:** yn cynnwys yr holl gostau a ffioedd cysylltiedig cynllunio, cynhyrchu a phrynu gofod cyfryngau ar gyfer partneriaethau cyfryngau y telir amdanynt.
- iii. Digidol a Chymdeithasol:** yn cynnwys costau ffioedd asiantaeth a chynhyrchu sy'n gysylltiedig â chynnal ein presenoldeb digidol (sianelau gwefan a chyfryngau cymdeithasol) gan gynnwys ffioedd gwe-letya, optimeiddio peiriannau chwilio, profi a chynnal a chadw etc; a chynllunio, datblygu a chynhyrchu ymgyrchoedd cynnwys 'digidol frodorol'.
- iv. Cynhyrchu:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynnwys, gan gynnwys creadigol, cynllunio a ffioedd asiantaeth gyfrifyddu, costau defnyddio a'r holl gostau gwaith celf a chynhyrchu, canllawiau a dylunio eraill.
- v. Prynu cyfryngau:** yn cynnwys yr holl gostau a ffioedd asiantaeth cysylltiedig â chomisiynu cynllunio a phrynu gofod cyfryngau mewn sianelau cyfryngau y telir amdanynt.
- vi. Partneriaethau Marchnata:** yn cynnwys yr holl gostau gan gynnwys cyllid a drosglwyddir yn uniongyrchol i sefydliadau partner (fel elusennau, grwpiau cymunedol a brandiau) y mae eu hangen ar gyfer cynllunio, datblygu a chynhyrchu partneriaethau marchnata.
- vii. Mewnwelediad a Dadansoddeg:** yn cynnwys yr holl gostau a ffioedd gofynnol ar gyfer cynllunio, comisiynu, cynnal a dadansoddi ymchwil at ddibenion mewnwelediad i ennyn diddordeb defnyddwyr, mesur ac optimeiddio, a gwerthuso, fel a ddisgrifir yn y papur hwn.

Materion Corfforaethol

- i. Newyddion:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rheoli newyddion ymatebol a pharodrydd i ymateb, gan gynnwys cefnogaeth asiantaeth, offer monitro cyfryngau, a thanysgrifiadau.
- ii. Polisi:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gwaith arwain meddwl, gan gynnwys cynhyrchu tystiolaeth ac ymchwil polisi, a digwyddiadau dilynol.
- iii. Materion Cyhoeddus:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag adeiladu gwybodaeth ac eiriolaeth ymysg gwleidyddion, busnesau a budd-ddeiliaid yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan gynnwys cefnogaeth asiantaeth ac offer y mae ei angen i reoli gohebiaeth gyhoeddus.

Costau gweithredu sefydlog

- i. Costau staff:** yn cynnwys yr holl gostau staff uniongyrchol ac anuniongyrchol gan gynnwys cyflogau, yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn, recriwtio a rhai buddion staff anuniongyrchol.
- ii. Hyfforddi a datblygu:** yn cynnwys holl gostau hyfforddi a datblygu'r sefydliad gan gynnwys hyfforddiant un i un, hyfforddiant grŵp a chyfarfodydd cynllunio mewnol.

- iii. Costau rhedeg adeiladau a swyddfeydd:** yn cynnwys rhent, trethu a thâl gwasanaeth ein tair swyddfa yn Llundain, Caerdydd a Chaeredin. Mae'r costau rhedeg cysylltiedig (o argraffu a phostio i lanhau a chynnal a chadw cyffredinol) wedi'u cynnwys hefyd.
- iv. Treuliau teithio a byw:** yn cynnwys y costau teithio a threuliau byw cysylltiedig pan fydd ein staff yn gorfod gweithio i ffwrdd o'u prif weithle ar weithgareddau Ynni Clyfar GB.
- v. TGCh:** yn cynnwys costau cefnogi TG, costau isadeiledd, trwyddedau (ar gyfer meddalwedd, storio a diogelwch) a chostau rhwydwaith.
- vi. Archwilio a chyfrifyddu ariannol:** yn cynnwys costau ein ffioedd archwilio allanol a'n ffioedd cadw cyfrifon wedi'u hallanoli.
- vii. Yswiriant, cyfreithiol ac ymgynghoriaeth:** yn cynnwys yr holl gostau yswiriant a darpariaeth ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol ac ymgynghoriaeth.
- viii. Darpariaeth ddrwgddyled:** yn 2020 mae risg na fydd rhai cyflenwyr yn gallu talu arian sy'n ddyladwy i Ynni Clyfar GB o ganlyniad iddynt fynd i weinyddiaeth. Mae'r ddarpariaeth ddrwgddyled yn amcangyfrif o'r lefel o incwm efallai na chaiff ei dalu os bydd y risg hon yn digwydd yn 2020.
- ix. Treth:** Mae Ynni Clyfar GB o dan rwymedigaeth i dalu treth gorfforaethol ar ei log banc. Mae'r dyraniad cyllideb hwn yn bodloni'r rhwymedigaeth honno.
- x. Llog banc:** dyma amcangyfrif o'n llog banc yn seiliedig ar ein rhagamcaniad llif arian, gan ddefnyddio cyfraddau llog cyfredol:

4.2 Y gyllideb annomestig

Mae bwrdd Ynni Clyfar GB yn cydnabod pwysigrwydd gwerth am arian ar draws holl weithrediadau'r cwmni. I sicrhau gwneud ein gorau i fwyafu effeithiolrwydd ein gwariant ac isafu gwastraff, rydym yn cymhwyso model gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) fel sail i egwyddorion cynllunio cyllidebu.

Am fwy o wybodaeth, mae NAO wedi cyhoeddi manylion ei model gwerth am arian ar ei gwefan.

Mae'r cyfanswm cyllideb annomestig ar gyfer 2020 o £1.67m wedi'i thorri i lawr i'r gyllideb gyfalaf o £1.36m a chyfraniad annomestig gan y cyflenwyr i gostau gweithredu sefydlog o £0.31m.

£k	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	CYFANSWM 2020
CYLLID CYFALAF					
Cysylltiadau cyhoeddus defnyddwyr rhagweithiol	-	135	30	135	300
Digidol a chymdeithasol	45	25	25	25	120
Cynhyrchu	120	10	-	-	130
Digidol	40	5	2.5	2.5	50
Marchnata partneriaeth	-	157.5	25	67.5	250
Prynu cyfryngau (gwasg fasnach)	-	50	-	50	100
Prynu cyfryngau (radio)	-	125	40	135	300
Materion cyhoeddus	20	-	20	-	40
Mewnwelediad a dadansoddeg	30	20	-	20	70
Cyfanswm cyllid cyfalaf annomestig	255	527.5	142.5	435	1,360
Costau gweithredu sefydlog (fel dyraniad o'r costau cyffredinol)*	76	77	76	77	306
Cyfanswm cyllideb annomestig 2020	331	604.5	218.5	512	1,666

*Defnyddiodd y dyraniad costau cyffredinol uchod y ganran o gostau cyfalaf a chostau gweithredu sefydlog yn yr ymgyrch ddomestig. Y ganran costau cyffredinol yn yr ymgyrch ddomestig yw 22.5% sydd wedi'i chymhwyso i'r cyllid cyfalaf uchod. Mae'r dyrniad yn adlewyrchu cyfraniad teg o gostau cefnogi'r ymgyrch annomestig sy'n cynnwys cyfraniad tuag at:

- Gostau staff (gan gynnwys hyfforddi a datblygu)
- Costau rhedeg adeiladau a swyddfeydd
- Treuliau teithio a byw

- TG
- Archwilio a chyfrifyddu ariannol
- Yswiriant, cyfreithiol ac ymgynghoriaeth
- Dibrisio
- Darpariaeth ddrwgddyled
- Treth

